# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Dol y Felin**

**Dolyfelin Homes**
**Heol y Pentre Sanclêr**
**Caerfyrddin**
**SA33 4LR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Dol y Felin

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Lleoedd cofrestredig | 33 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21/06/2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm o staff tosturiol a llawn gwybodaeth.
Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant da i'w galluogi i gyflawni eu rôl.
Mae'r rheolwr yn cael ei gefnogi gan yr Unigolyn Cyfrifol sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda drwy ymweld a thrwy amrywiaeth o adnoddau archwilio o ansawdd.

Mae'r cofnodion gofal yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Ceir tystiolaeth dda i ddangos bod y cynlluniau gofal wedi cael eu datblygu a'u hadolygu gyda'r unigolion a / neu eu cynrychiolwyr.

Nodwyd rhannau penodol o'r amgylchedd fel Maes i'w Wella yn yr arolygiad diwethaf. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd, gan gynnwys y gerddi cymunedol ac o ganlyniad hynny, mae'r Maes i'w Wella wedi cael ei gyflawni.

## Llesiant

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Caiff eu barn am y gwasanaeth ei cheisio gan yr Unigolyn Cyfrifol yn ystod ei hymweliadau Rheoliad 73 a thrwy holiaduron a ddefnyddir i lywio'r adroddiadau ar Ansawdd y Gofal bob chwe mis. Mae'r bobl yn sgwrsio yn Gymraeg ac yn cael gwybodaeth yn Gymraeg os mai dyna yw eu dewis iaith.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac mae ganddynt feddwl uchel o'r unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent hefyd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Mae'r cofnodion gofal yn rhoi gwybodaeth am anghenion a dewisiadau'r bobl a chânt eu hadolygu'n rheolaidd ynghyd â'r asesiadau risg cysylltiedig. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon am y gwasanaeth os bydd angen iddynt wneud hynny.

Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwylio a hyfforddiant cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r dulliau gofalu cywir.  Mae'r staff yn parchu'r rheolwr a gaiff, yn ei dro, ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl ac yn barod drwy'r hyfforddiant y maent yn ei gwblhau.

Mae'r amgylchedd yn helpu llesiant y bobl. Mae'r gwelliannau i waith addurno mewnol y gwasanaeth yn galluogi'r bobl i ganfod eu ffordd eu hunain o amgylch y coridorau neu i'w hystafelloedd gwely yn well. Mae cyflwr y gerddi yn groesawgar, yn lliwgar ac yn llai peryglus i'r bobl eu mwynhau. Bydd cynlluniau ar gyfer y gerddi cymunedol yn y dyfodol yn galluogi'r bobl i ddilyn eu hobïau a'u diddordebau yn well.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt pan fo angen. Mae'r staff gofal yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r cofnodion gofal yn rhoi manylion da am yr unigolyn ac am ei anghenion. Caiff asesiadau risg cysylltiedig eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff y cynlluniau gofal eu datblygu a'u hadolygu gyda'r unigolyn a / neu ei gynrychiolydd. Caiff gweithwyr iechyd a gweithwyr meddygol proffesiynol eu cynnwys yn y broses o ofalu am y bobl a rhoi cymorth iddynt pan fo angen ac mae hyn wedi'i ddogfennu'n dda. Gwelsom y staff yn ymateb yn gyflym ac yn bwyllog i seiniwr argyfwng a gafodd ei ddefnyddio yn ystod cyfnod yr arolygiad.

Mae'r bobl yn siarad yn gadarnhaol am fyw yn y gwasanaeth ac am y gofal a'r cymorth a gânt. Dywedodd y bobl wrthym *"It's a lovely home and the carers are so good", "I am well looked after, all the carers are kind to me"* ac *"I've got no complaints, the carers are great".* Mae nifer o'r staff yn cyfathrebu yn Gymraeg â'r bobl, a gwelsom enghreifftiau o hyn yn ystod yr arolygiad. Mae'r bobl yn cael dewis pryd i godi a mynd i'r gwely, mae opsiynau amrywiol ar gyfer prydau bwyd bob amser ac mae gwybodaeth ddwyieithog ar gael bob amser.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel. Yn ystod trafodaethau â'r bobl, dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yng ngwasanaeth Dol y Felin a'u bod yn gallu codi pryderon os bydd angen iddynt wneud hynny. Gwnaethant ddweud wrthym; "*I know I can speak to the carers or [rheolwr] if I have any concerns"* a *"the carers and the safety of the home makes me feel safe".* Mae'r bobl yn cael copi o weithdrefn gwyno Cyngor Sir Gaerfyrddin ar ôl iddynt gael eu derbyn i'r gwasanaeth.

## Yr Amgylchedd

Yn yr arolygiad diwethaf, gwelsom nad oedd rhai rhannau o'r amgylchedd yn cefnogi canlyniadau personol y bobl a chafodd y rhain eu nodi fel Maes i'w Wella. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod digon o welliannau wedi'u gwneud i fynd i'r afael â'r Maes i'w Wella.

Mae yna arwyddion ar ddrysau ystafelloedd gwely'r bobl gyda llun ohonynt, rhif ystafell a thri phwynt diddorol amdanynt. Mae gan y coridorau cymunedol nifer o luniau, paentiadau a phwyntiau diddorol yn cael eu harddangos. Mae hyn yn cefnogi'r bobl i ganfod eu ffordd eu hunain o amgylch yr ardaloedd cymunedol a'u hystafelloedd gwely yn well. Mae'r lolfeydd cymunedol a'r ardaloedd bwyta wedi cael eu hailaddurno â llenni a bleinds newydd. Dywedodd un unigolyn wrthym "*I love the colour of the walls and the curtains match so well".* Cawsom hefyd wybod am y rhaglen ailaddurno ac adnewyddu parhaus ar gyfer y gwasanaeth gan y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol.

Mae'r gerddi cymunedol mewn cyflwr da ac yn llai peryglus o lawer i'r bobl eu defnyddio ers yr arolygiad diwethaf. Yn y brif ardal, mae'r llwybrau wedi cael eu chwynnu ac maent yn hygyrch ac yn llai peryglus i'r bobl eu defnyddio. Mae'r gwelyau uchel wedi cael eu llenwi ag amrywiaeth o blanhigion ac maent yn nodweddion deniadol iawn yn y gerddi y mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'r staff yn eu mwynhau. Gwnaethant ddweud wrthym, *"The beds are looking beautiful, such lovely colours"*, *"I think the raised beds look lovely"* ac *"I love sitting in the garden when it's looking so pretty".*

Fel rhan o'r rhaglen ailaddurno ac adnewyddu, mae'r unedau ymolchi newydd wedi cael eu gosod yn rhai o'r ystafelloedd gwely. Dywedodd un unigolyn a oedd wedi cael uned ymolchi newydd wrthym, *"This one [uned ymolchi] is so much better, clean and looks nice".*

Rydym wedi cael gwybod gan y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol bod cynlluniau ar waith i gael tŷ gwydr yn y gerddi cymunedol. Bydd hyn yn gwneud yr ardal yn llawer mwy hygyrch i'r bobl ei defnyddio i ddilyn eu hobïau a'u diddordebau. Mae gan y tŷ gwydr presennol nifer o blanhigion tomatos yn tyfu, er nad yw'n hygyrch i'r bobl ei ddefnyddio. Dywedodd yr unigolyn sydd â phlanhigion yn tyfu yn y tŷ gwydr wrthym, *"I rely on the carers to water the tomatoes. I do visit the greenhouse to keep an eye on them".* Gwnaeth hefyd ddangos y tomatos y mae'n eu plannu mewn bagiau tyfu yn yr ardd gymunedol, *"they are coming on slowly, but that's due to the weather".*

Caiff y risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu lleihau gan fod amrywiaeth o wiriadau ac archwiliadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi a'u gwasanaethu o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd. Caiff systemau mynediad bysellbad eu defnyddio lle yr ystyrir bod eu hangen ac mae'n ofynnol i bob ymwelydd lofnodi wrth fynd i mewn ac allan o'r gwasanaeth. Mae cyfyngwyr wedi'u gosod ar ffenestri'r llawr cyntaf. Mae'r gwasanaeth yn lân ac nid oes unrhyw arogleuon drwg.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm o staff gwybodus a hyfforddedig sy'n cael ei gefnogi'n dda. Mae'r gweithwyr gofal yn deall y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn dda a gallant ddarparu manylion am yr unigolion a'u hanghenion gofal penodol.
workers have a good understanding of the people living in the service and are able to

gweithwyr gofal wrthym am eu profiad i weithio yng nghartref Dol y Felin, gan gynnwys, *"I do love my job, I want the very best for the residents"* ac *"It's really great working here, I really enjoy coming to work".*

Mae'r rheolwr yn cael ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn hawdd cael gafael arno dros y ffôn neu drwy e-bost bob amser arall. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau ymweliadau Rheoliad 73 o fewn yr amserlenni gofynnol a'r adroddiadau ar Ansawdd y Gofal bob chwe mis. Mae AGC wedi derbyn copïau o'r adroddiadau hyn.

Mae prosesau recriwtio a dethol cadarn ar waith. Caiff y cliriadau a'r gwiriadau cywir eu cynnal a'u dogfennu cyn i'r staff ddechrau gweithio. Bu trafferthion ynghylch recriwtio staff ar gyfer y gwasanaeth, ond mae hon yn sefyllfa sy'n gwella gan fod nifer o staff wedi cael eu recriwtio ers yr arolygiad diwethaf. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y gweithwyr gofal a ddywedodd wrthym, *"It's much better now we have nearly a full team"* ac *"it's been difficult with the staff shortages; however, [mae'r rheolwr] is very supportive and things are so much better now".*

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac mae AGC yn cael gwybod am ddigwyddiadau yn briodol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 44 | Nid yw'r amgylchedd mewnol yn cefnogi'r bobl i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch y gwasanaeth. Mae'r tir allanol yn risg bosibl ac nid yw'n cefnogi'r bobl i ddilyn eu hobïau a'u diddordebau. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/09/2024